Thema Ymchwil: Diwylliant

Astudiaeth Achos

# Ehangu Arferion Gwneud Printiau Cyfoes



**YMCHWILYDD**

Paul Croft

**TROSOLWG**

Drwy ymarfer-fel-ymchwil, arddangosfeydd, dosbarthiadau meistr, portffolios printiau a chydweithio rhyngwladol, mae Paul Croft wedi cynnig cyfleoedd newydd i'r cyhoedd gael profiad o greu printiau cyfoes ac ymgysylltu â'r broses. Mae ei brosiectau wedi galluogi gwneuthurwyr printiau o Brydain i gael eu cydnabod yn Tsieina, Awstralia ac UDA, ac ar yr un pryd wedi bod o gymorth i artistiaid Tsieineaidd i arddangos a rhwydweithio y tu hwnt i'w mamwlad, a gwerthu eu gwaith yn y farchnad fyd-eang. Yn fyd-eang ac yn rhanbarthol, mae ei fentrau wedi bod o fudd i artistiaid proffesiynol a myfyrwyr celf, amgueddfeydd ac orielau, casglwyr printiau a'r cyhoedd.





## YR YMCHWIL

Ers cyhoeddi ei lawlyfrau technegol dylanwadol, *Stone Lithography a Plate Lithography*, mae Paul Croft wedi parhau i rannu ei wybodaeth am wneud printiau drwy guradu arddangosfeydd rhyngwladol, gweithdai a gwyliau print ledled y byd.

Arweiniodd ei waith cydweithredol yn Tsieina at ddwy o'r arddangosfeydd hyn; *Contemporary Chinese Printmaking* (a oedd yn edrych ar waith tair cenhedlaeth o wneuthurwyr printiau o dalaith Hunan) ac arddangosfa *The Xiaoxiang Exhibition of International Printmaking* (a oedd yn creu cyd-destunau rhyngwladol ar gyfer gwneud printiau Tsieineaidd, drwy arddangos dros 200 o brintiau gan 90 artist o Awstralia, Canada, Chile, Tsieina, Iwerddon, y DU ac UDA).

## YR EFFAITH

### CYNHYRCHU CYFLEOEDD NEWYDD SYDD WEDI EHANGU ARFERION PROFFESIYNOL A CHREADIGOL

Cafodd arddangosfa *The Xiaoxiang Exhibition of International Printmaking* (2015) ei chydnabod yn Tsieina fel yr arddangosfa fwyaf uchelgeisiol erioed i gael ei chynnal yn nhalaith Hunan. Barnodd swyddogion y wlad fod y prosiect o arwyddocâd diwylliannol mawr, a denodd gyllid gan asiantaethau'r llywodraeth, yn eu plith Cymdeithas Artistiaid Tsieina a Chymdeithas Gwneud Printiau Tsieina.

Roedd arddangosfa *Contemporary Chinese Printmaking*, a deithiodd o amgylch y DU yn 2015-16, yn cynnig cyd-destun i gynulleidfaoedd rhyngwladol o arfer cyfoes yn Tsieina. I lawer o'r artistiaid dan sylw, dyma oedd y cyfle cyntaf iddyn nhw arddangos eu gwaith y tu allan i Tsieina.

### CYFOETHOGI GWERTHFAWROGIAD Y CYHOEDD

Mae Paul wedi arddangos ei brintiau mewn sioeau unigol a grŵp yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac wedi dyfeisio a chyfrannu at bortffolios print mawr. Drwy wneud hynny, mae wedi rhoi cyfleoedd newydd i gynulleidfaoedd cyhoeddus brofi gwneud printiau cyfoes, ac mae wedi cyfoethogi'r gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth o wneud printiau fel math allweddol o fynegiant artistig.

### EFFAITH YNG NGHYMRU

Yng Nghymru, mae Paul wedi meithrin ymwybyddiaeth o wneud printiau yn rhinwedd ei swydd fel sylfaenydd Cyngor Print Cymru a chadeirydd y cwmni cydweithredol rhanbarthol Argraffwyr Aberystwyth. Cynhaliodd weithdy gwneud printiau ar gyfer y cwmni hwnnw, yn ogystal â datblygu arddangosfeydd teithiol, dosbarthiadau meistr a rhaglen addysg gymunedol. Mae'n cysylltu aelodau o'r cwmni cydweithredol gyda'r ymarferwyr enwog sy'n ymweld, i greu printiau o dan ei oruchwyliaeth: Anne Desmet RA, Shani Rhys James MBE, Mary Lloyd Jones, Wuon Gean Ho, Marcelle Hanselaar, John Duffin RE a Stuart Pearson Wright.

**Cafodd arddangosfa *The Xiaoxiang Exhibition of International Printmaking* (2015) ei chydnabod yn Tsieina fel yr arddangosfa fwyaf uchelgeisiol erioed i gael ei chynnal yn nhalaith Hunan. Barnodd swyddogion y wlad fod y prosiect o arwyddocâd diwylliannol mawr, a denodd gyllid gan asiantaethau'r llywodraeth, yn eu plith Cymdeithas Artistiaid Tsieina a Chymdeithas Gwneud Printiau Tsieina.**

